



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Cyflogi a cefnogi athrawon cyflenwi mewn amgylchedd ysgol**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Uned Strategaeth y Gweithlu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 0604400  
e-bost: [SupplySupport@gov.Cymru](mailto:SupplySupport@gov.Cymru)



ISBN digidol 978 1 78859 749 4  
© Hawlfraint y Goron Hydref 2017  
WG33372

# **Contents**

<b>Pwy sy'n gallu addysgu mewn ysgol a gynhelir?</b>	<b>2</b>
<b>Athrawon cymwysedig a gwaith addysgu</b>	<b>4</b>
<b>Gofynion diogelu</b>	<b>5</b>
<b>Rheoliadau gweithwyr asiantaeth ac athrawon cyflenwi</b>	<b>6</b>
<b>Cefnogi athrawon cyflenwi yn yr ysgol o'r cyfnod ymsefydlu i'w hymadawiad</b>	<b>8</b>

## Pwy sy'n gallu addysgu mewn ysgol a gynhelir?

Mae'r sefyllfa ynglŷn â phwy sy'n gallu cyflawni gwaith addysgu mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir wedi'i nodi mewn rheoliadau statudol. Mae'r nodyn gwybodaeth hwn yn ceisio crynhoi'r sefyllfa bresennol er mwyn darparu canllawiau cyffredinol, ond nid yw'n ddehongliad caeth o'r rheoliadau.

Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) yw corff rheoleiddio'r proffesiwn addysg yng Nghymru. Mae gofynion i ymarferwyr gael eu cofrestru yn eu categori neu eu categorïau gwaith perthnasol wedi'u cynnwys yn Neddf Addysg Cymru 2014 a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (Rheoliadau'r Swyddogaethau) fel y'u diwygiwyd. <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/6/note/made>

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/6/pdfs/wsi\\_20160006\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/6/pdfs/wsi_20160006_mi.pdf)

Mae'n rhaid i athrawon â Statws Athro Cymwysedig (SAC) sy'n gweithio fel athrawon ysgol cymwysedig ar hyn o bryd mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru, neu sy'n bwriadu gwneud hynny, gael eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori **athro ysgol**.

Mae Rheoliadau'r Swyddogaethau yn nodi pwy sy'n gallu cyflawni'r 'gwaith a bennir' – h.y. addysgu, mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yng Nghymru. Yn ôl Rheoliad 17, mae gwaith a bennir yn ymwneud â chyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

- (a) Cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsgiau ar gyfer disgyblion;
- (b) Cyflwyno gwersi i ddisgyblion;
- (c) Asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion; ac
- (d) Adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Yn ogystal ag athrawon cymwysedig, gall personau eraill mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol eraill gyflawni gwaith a bennir hefyd. Mae'r gofynion sydd i'w bodloni gan bersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig wedi'u nodi yn atodlen 3 i Rheoliadau'r Swyddogaethau. Dyma grynodeb ohonynt:

- (i) Athrawon sy'n addysgu dosbarthiadau meithrin ac mewn ysgolion meithrin ar hyn o bryd nad ydynt yn athrawon cymwysedig ond y caniatwyd iddynt gael eu cyflogi fel athrawon ac a gyflogwyd felly cyn 1 Medi 1982;
- (ii) Gall personau â chymwysterau arbennig neu brofiad arbennig nad ydynt yn athrawon cymwysedig gyflawni gwaith a bennir mewn cysylltiad ag unrhyw gelfyddyd neu sgil neu mewn unrhyw grŵp o bynciau pan fo angen cymwysterau arbennig neu brofiad arbennig i wneud hynny.
- (iii) Athrawon a hyfforddwyd dramor sydd wedi cwblhau yn llwyddiannus raglen hyfforddiant proffesiynol i athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig am gyfnod o hyd at ddwy flynedd.
- (iv) Gall hyfforddeion ar gyrsiau hyfforddiant cychwynol athrawon sy'n dilyn cwrs mewn sefydliad achrededig yng Nghymru neu Loegr gyflawni gwaith a bennir o dan

oruchwyliaeth athro neu athrawes gymwysedig yn ystod unrhyw gyfnod o brofiad addysgu ymarferol;

(v) Athrawon addysg bellach cymwysedig sy'n addysgu cyrsiau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm lleol sydd â chymwysterau sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002;

(vi) Personau sy'n dilyn hyfforddiant at ddibenion cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth (er enghraifft, y Rhaglen Athrawon Graddedig) hyd oni fyddant yn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus neu yn rhoi'r gorau iddo;

(vii) Hefyd, gall personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig ac na chrybwyllir hwy yn (i – vi uchod) gyflawni gwaith a bennir os bodlonir yr amodau canlynol:

- Maent yn cyflawni'r gwaith a bennir er mwyn cynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig neu athrawon eraill yn yr ysgol a enwebir gan bennaeth yr ysgol;
- Maent yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athrawon cymwysedig neu athrawon enwebedig o'r fath yn unol â threfniadau a wneir gan bennaeth yr ysgol;
- Mae'r pennaeth yn fodlon eu bod yn meddu ar y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol i gyflawni gwaith a bennir.

Wrth benderfynu a oes gan y personau a grybwyllir yn (vii) y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol i gyflawni gwaith a bennir, dylai penaethiaid ystyried y safonau ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch a'r canllawiau ategol, a chanllawiau ar faterion cytundebol sy'n ymwneud â gweithwyr cymorth dysgu. Ni ddylai'r cyfryw staff ddarparu gwasanaethau neu gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau oni bai eu bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Gofal o dan adran 3A yng nghategori 'gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol'. Mae gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn berson a gyflogir, nid fel athro neu athrawes gymwysedig, ond i gynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig neu athrawon enwebedig yn yr ysgol.

**Ni ellir cyfnewid rôl cynorthwywyr addysgu lefel uwch ac athrawon cymwysedig. Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw berson sy'n cyflawni gwaith a bennir yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion ar gyfer gwaith a bennir yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.**

Canllawiau Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer Cyflogwyr sy'n Cyflogi Athrawon Ysgol a Gweithwyr Cymorth Dysgu Mewn Ysgolion

<https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&ved=0ahUKEwikqKCLguDTAhXmJcAKHd1kBTQQFggiMAA&url=http%3A%2F%2Fwww.ewc.wales%2Fsite%2Findex.php%2Fcy%2Fdocuments-cym%2Fregistration-1%2F271-ewc-school-teacher-and-school-lsw-employer-guide-april-2016-cymraeg&usq=AFQjCNHg7ooOt1N-CAcdYHj3mijV67XAOg&cad=rja>

Mae Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig canllawiau ar ddehongli'r rheoliadau yn unig.

Ebrill 2017

## Athrawon cymwysedig a gwaith addysgu

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyngor i ysgolion ac asiantaethau cyflenwi ar sawl achlysur am bwy sy'n gallu gweithio fel athrawon cyflenwi ar gyfer absenoldebau, ac am gontractau tymor byr a thymor hir.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod gan bob unigolyn, sy'n cael ei gynnig i ysgolion ar gyfer **swyddi addysgu, Statws Athro Cymwysedig**, a'i fod **wedi cofrestru'n athro cymwysedig â Chyngor y Gweithlu Addysg**.

Mae'r gofynion sydd angen eu bodloni gan bersonau y cydnabyddir eu bod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru (a chanddynt Statws Athro Cymwysedig felly) wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012. <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/724/contents/made>

Mae'r sefyllfa o ran pwy a all wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru wedi'i amlinellu mewn rheoliadau statudol hefyd.

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yw'r rhai hynny. <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/140/contents/made>

O dan y Rheoliadau hynny, mae Rhan 3, Rheoliad 15 yn nodi bod gofyn i berson fod yn gymwys i addysgu, ac mae Rheoliad 17 yn nodi'r gweithgareddau'n fanwl - a elwir yn **waith penodedig** - y gall athro cymwys eu gwneud.

Dyma'r gweithgareddau hynny:  
Cynllunio a pharatoi gwersi a chyrсияu i ddisgyblion;  
Rhoi gwersi i ddisgyblion;  
Asesu datblygiad, hynt a chyrhaeddiad disgyblion; ac  
Adrodd ar ddatblygiad, hynt a chyrhaeddiad disgyblion.

Dylai asiantaethau cyflenwi sicrhau bod Penaethiaid neu Gyrrff Llywodraethu – pan fo hynny'n briodol – yn ymwybodol bod angen cyfyngu ar ddyletswyddau fel y bo'n briodol, os yw unigolion yn cael eu hanfon i ysgolion ar gyfer swyddi Cynorthwyr Addysgu neu Goruchwylwyr Llanw heb Statws Athro Cymwysedig. Yn yr un modd, mae angen i ysgolion fod yn glir ynglŷn â chyfrifoldebau wrth egluro rolau unigolion yn yr ystafell ddosbarth.

I gael rhagor o gyngor ynglŷn â Statws Athro Cymwysedig unigolyn ac a yw wedi'i gofrestru'n briodol, gallwch gysylltu â Thîm Cymwysterau a Chofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg drwy anfon e-bost i [registration@ewc.wales](mailto:registration@ewc.wales)

**Gallwch gael rhagor o gyngor am y gofynion sydd angen eu bodloni gan unigolion, er mwyn iddynt gael eu cydnabod yn athrawon cymwys yng Nghymru (a chanddynt Statws Athro Cymwysedig felly) gan yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol yn Llywodraeth Cymru, drwy anfon e-bost i [SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@wales.gsi.gov.uk](mailto:SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@wales.gsi.gov.uk)**

Medi 2017

## Gofynion diogelu

Mae'r canllawiau a luniodd Llywodraeth Cymru yn 2015, **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**, yn rhoi cyngor ar ddyletswyddau cyflogwyr o ran diogelu dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarwyddyd mewn perthynas â staff cyflenwi. Dyma ddolen i'r canllawiau a'r fersiwn hawdd ei deall: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy>

Mae'r cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar bob aelod newydd o staff a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys y gwiriadau datgelu a gwahardd perthnasol sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i ysgolion fod yn fodlon bod gan yr aelod staff dros dro (sut bynnag y cafwyd hyd iddo) y dogfennau angenrheidiol a bydd yn rhaid gweld y dystiolaeth cyn i'r aelod staff gychwyn yn ei rôl.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cadw cofrestr o'r athrawon hynny sydd â Statws Athro Cymwysedig ac sydd â'r cymwysterau addas i weithio fel athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae cofrestr y Cyngor yn cofnodi a yw athro yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau, wedi'i wahardd rhag ymarfer neu'n destun gorchymyn disgyblu o dan Gyngor y Gweithlu Addysg. Mae modd i ysgolion ac asiantaethau cyflenwi weld cofrestr y Cyngor er mwyn gwirio bod athrawon a staff cymorth dysgu wedi'u cofrestru fel rhan o'u gwiriadau cyn cyflogaeth.

Yn ei ganllawiau i gyflogwyr – 'School Teacher Registration Guidance for Employers (Local Authorities, Schools and Private Supply Teaching Agencies), April 2015' – mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn tynnu sylw at y gofyniad cyfreithiol sydd ar ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi i sicrhau eu bod yn cyflogi gweithwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor yn y categori(au) priodol. Mae'n bwysig bod ysgolion ac asiantaethau yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol ac ni ddylai'r naill gymryd yn ganiataol bod y llall wedi gwneud hynny.

Mae angen i asiantaethau cyflenwi sicrhau bod aelodau dros dro o staff yn ymwybodol o'r unigolyn yn yr ysgol sy'n gyfrifol am faterion diogelu plant, rhag ofn bod mater yn codi tra byddant yn yr ysgol. Efallai y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru **Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill** yn berthnasol: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/allegations-of-abuse-against-teachers/?skip=1&lang=cy>

### Cwestiynau allweddol i asiantaethau cyflenwi eu hystyried

- Ydych chi wedi cyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol a sicrhau bod pob aelod o staff cyflenwi wedi bod drwy'r gwiriadau cyn cyflogaeth a diogelwch plant priodol cyn dechrau mewn ysgol a bod yna drefniadau goruchwyllo priodol ar waith?
- Ydy'r staff cyflenwi yn ymwybodol o bolisiau diogelu plant yr ysgol a'r enwau cyswllt priodol a gweithdrefnau os bydd mater yn codi yn ymwneud â diogelu plant?
- Ydych chi wedi cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â defnyddio staff sydd â'r cymwysterau priodol ac sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i weithio yn lle staff sy'n absennol?

Mehefin 2017

## Rheoliadau gweithwyr asiantaeth ac athrawon cyflenwi

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r ddogfen hon fel canllaw byr i Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a thelerau ac amodau cyflogaeth athrawon cyflenwi gan asiantaeth, fel y nodwyd yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn cael eu cyhoeddi gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol [http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/93/pdfs/ukxi\\_20100093\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/93/pdfs/ukxi_20100093_en.pdf)

Mae'r term 'gweithiwr asiantaeth' yn disgrifio athro cyflenwi a ddarperir i ysgol gan asiantaeth fasnachol ac sy'n cael ei dalu gan yr asiantaeth honno, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan yr ysgol. **Nid** yw'r Rheoliadau'n berthnasol i athro cyflenwi a gyflwynir i'r ysgol gan asiantaeth gyda'r ysgol wedyn yn rhoi contract cyflogaeth uniongyrchol iddo/iddi; athrawon sy'n rhan o drefniant 'rhestr' awdurdod lleol ac sy'n cael eu cyflogi a'u talu gan yr awdurdod neu gan ysgol; na'r rhai sy'n cael eu darparu a'u cyflogi gan ysgol yn uniongyrchol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diffinio nad yw hawl athro i gael cyflog cyfartal yn berthnasol i weithwyr asiantaeth sydd â "contract cyflogaeth parhaol" gyda'r asiantaeth (a elwir yn Rhanddirymiad Sweden).

Yn unol â'r Rheoliadau, mae "huriwr" yn cyfeirio at yr endid cyfreithiol y cyflenwir y gweithiwr iddo ac sy'n gyfrifol am oruchwylio a chyfeirio'r gweithiwr hwnnw. Mewn ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion arbennig sefydledig, yr huriwr yw'r corff llywodraethu; mewn ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir, yr huriwr yw naill ai'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol; mewn ysgolion annibynnol, yr huriwr yw perchennog yr ysgol. Mae'r huriwr yn ffaith sy'n rhaid penderfynu arno ym mhob achos ac yn dibynnu ar i bwy mae'r gweithiwr wedi'i gyflenwi a phwy sy'n goruchwylio a chyfeirio gwaith y gweithiwr.

Os yw athro cyflenwi asiantaeth yn symud i ysgol sydd ag awdurdod lleol arall neu gorff llywodraethu arall yn huriwr, mae'r cloc cymhwyso yn cael ei ailosod i sero. Os bydd athro cyflenwi asiantaeth yn gweithio cyn ac ar ôl cau'r ysgol (er enghraifft, gwyliau'r haf) a'i fod, er enghraifft, 6 wythnos i mewn i gyfnod cymhwyso am driniaeth deg, byddai saib yn y cyfnod cymhwyso ar ddiwedd un tymor ac yn aildechrau eto ar ddechrau'r nesaf ar yr amod bod y gweithiwr asiantaeth yn dychwelyd i'r un swydd gyda'r un huriwr.

Mae Rhan 2, Rheoliad 5 y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth yn nodi'r hawliau sy'n pennu y dylid darparu'r un telerau ac amodau sylfaenol i athrawon ar ôl cyfnod cymhwyso o 12 wythnos â phe baent yn cael eu recriwtio'n uniongyrchol gan yr huriwr. Felly, ar ôl 12 wythnos, dylai athro dderbyn yr un gyfradd dalu â phe bai'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan ysgol sy'n dilyn darpariaeth y ddogfen ar Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD). Gall athro cyflenwi asiantaeth symud rhwng ysgolion pan mai'r un awdurdod lleol yw'r huriwr, heb stopio'r cloc cymhwyso 12 wythnos oni bai bod y rôl yn gwbl wahanol.

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/548272/School\\_teachers\\_pay\\_and\\_conditions\\_2016\\_welsh.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/548272/School_teachers_pay_and_conditions_2016_welsh.pdf)

Mae'r hawliau wedi'u nodi mewn dwy ran yn Rhan 2 y Rheoliadau: Rheoliad 12, sy'n weithredol o'r Diwrnod Cyntaf a Rheoliad 6 sy'n weithredol ar ôl 12 wythnos:



**Hawliau Diwrnod Cyntaf** – O ddiwrnod cyntaf y penodiad, mae'n rhaid i'r huriwr ddarparu'r un mynediad i gyd-gyfleusterau ac amwynderau i weithwyr asiantaeth ag sy'n cael eu darparu i weithwyr cyflogedig eraill, er enghraifft:

- defnydd o gyfleusterau, e.e. cyfleusterau ffreutur, ystafell weddio, ystafell gyffredin y staff, ystafell mam a'i phlentyn, ac ati;
- defnydd o gyfleusterau trafniadaeth, e.e. manau casglu lleol;
- defnydd o unrhyw gyfleusterau parcio;
- yr un cyfle i gael swydd barhaol.

**Hawliau 12 wythnos** - Yn dilyn cyfnod parhaus o 12 wythnos yn yr 'un rôl' gyda'r 'un huriwr', mae'r asiantaeth yn gyfrifol am ddarparu'r un cyflog ac amodau sylfaenol fel gweithiwr asiantaeth ag y byddai ganddynt pe baent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, er enghraifft:

- y gyfradd dalu sylfaenol (yn unol â STPCD)
- cyfraniadau pensiwn (Fel sy'n berthnasol);
- hawl gwyliau (yn unol â STPCD)
- amser i ffwrdd â thâl ar gyfer apwyntiadau cynnedigol.

Mae'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth yn caniatáu eithriad o driniaeth gyfartal, mewn perthynas â thâl, pan fo asiantaeth yn gallu cynnig contract cyflogaeth parhaol i weithiwr asiantaeth. Cyfeirir at hyn yn Rheoliad 10 sy'n sôn am contractau parhaol sy'n darparu cyflog rhwng penodiadau ac a elwir yn Rhanddirymiad Sweden. Er mwyn i'r eithriad hwn fod yn weithredol, mae'n rhaid i'r contract ddarparu bod yr asiantaeth yn parhau i dalu'r gweithiwr rhwng penodiadau pan nad oes gwaith ar gael. Wrth lofnodi contract o'r fath nid oes gan y gweithiwr, ar ôl 12 wythnos yn yr un swydd, hawl i gael yr un amodau tâl (fel tâl gwyliau) a fyddai wedi'u cynnwys fel arfer pe bai wedi'i recriwtio'n uniongyrchol gan yr huriwr. Mae athro cyflenwi asiantaeth sy'n llofnodi un o'r contractau hyn yn cael yr hawliau diwrnod cyntaf i ddefnyddio cyfleusterau ac ymgeisio am swyddi gwag. Ar ôl 12 wythnos bydd ganddo hawl i driniaeth gyfartal mewn perthynas â hyd yr oriau gwaith, gwaith nos, y cyfnodau gorffwys a'r egwyliau gorffwys a gwyliau blynyddol (yr hawl i gael amser o'r gwaith). Mae'n bwysig bod athrawon yn ymwybodol o delerau ac amodau cais i weithio er mwyn gallu ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn llawn.

Dim ond canllawiau ar ddehongli'r rheoliadau y gall Llywodraeth Cymru eu cynnig.

Mehefin 2017

## Cefnogi athrawon cyflenwi yn yr ysgol o'r cyfnod ymsefydlu i'w hymadawiad

Waeth pwy yw'r cyflogwr, mae'n hollbwysig bod proses ymsefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi yn cael yn yr ysgol y byddant yn gweithio ynddi beth bynnag yw hyd eu contract. Dylent hefyd gael cefnogaeth drwy gydol eu lleoliad ac adborth cyn eu bod yn ymadael.

Dylai ysgolion weithio gyda'r asiantaethau cyflenwi masnachol i sicrhau bod yr arfer hon yn digwydd yn gyffredinol ar gyfer pob lleoliad.

### Ymsefydlu:

Dylid croesawu athrawon cyflenwi wrth iddynt gyrraedd yr ysgol a rhoi llawlyfr gwybodaeth iddynt. Dylai'r llawlyfr hwn gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ymgyswrtu ag arferion ac egwyddorion yr ysgol. Dylai annog addysgu a rheoli dosbarth yn effeithiol gan gefnogi dilyniant dysgu. **Lle'n bosibl ac yn briodol, dylid rhannu rhywfaint o'r llawlyfr hwn gyda'r asiantaethau cyflenwi masnachol a'r athrawon cyflenwi cyn eu bod yn dechrau yn yr ysgol.**

Dylai'r llawlyfr gynnwys y canlynol:

- Map o'r ysgol gyda lleoliad y dosbarthiadau, yr ystafell athrawon, y toiledau etc.
- Amserlenni'r ysgol gyda manylion y gwersi, a'r amseroedd egwyl a chinio;
- Manylion y prif gyswllt ar gyfer staff cyflenwi gan gynnwys enw, rhif a rôl, yn ogystal â manylion y rheolwr llinell/pennaeth adran;
- Polisi diogelu'r ysgol ac enw, lleoliad a manylion cyswllt y person enwebedig sy'n gyfrifol am faterion diogelu yn yr ysgol;
- Canllawiau ysgrifenedig yn amlinellu polisiâu, gweithdrefnau a disgwyliadau allweddol - megis rheoli ymddygiad, marcio ac asesu, iechyd a diogelwch, cosbau, disgyblion yn gadael y dosbarth;
- Gwybodaeth am gymorth cyntaf, ymarferion tân, codau drysau a gwybodaeth arall yn ymwneud â diogelwch;
- Manylion am fynediad at systemau ac offer TG;
- Gwybodaeth am y wers i'w haddysgu - cynlluniau gwersi neu waith arall a lleoliad unrhyw adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r wers;
- Gwybodaeth am y dosbarth a manylion cofrestru - enwau'r disgyblion ym mhob dosbarth sydd i'w addysgu, cynlluniau seddau, lefelau gallu, materion ymddygiad, unrhyw anghenion arbennig neu faterion iechyd;
- Manylion cyswllt mewn argyfwng, ac enwau, rolau a manylion cyswllt staff.

### Yn yr ysgol:

Dylai'r ysgol gefnogi athrawon cyflenwi drwy gydol eu lleoliad drwy drefnu'r canlynol:

- Teithiau dysgu gan staff uwch;
- Mentora gan arweinwyr pwnc;
- Mentora anffurfiol gan athrawon eraill, er enghraifft cefnogaeth a help i reoli ymddygiad etc;
- Rheoli perfformiad;
- Cymorth o ran datblygiad proffesiynol.

## **Cyn ymadael:**

Cyn bod athrawon cyflenwi'n ymadael â'r ysgol, dylid cynnal sesiynau adborth er mwyn:

- darparu adborth adeiladol i'r athro cyflenwi ar ansawdd y trefniant llanw a gwaith yr unigolyn;
- darparu adborth i'r asiantaeth cyflenwi os defnyddiwyd staff cyflenwi o asiantaeth;
- i'r athro cyflenwi allu darparu adborth ar ei brofiad o weithio yn yr ysgol;

Gall yr wybodaeth a geir o'r sesiynau adborth:

- helpu i sicrhau dilyniant o ran yr addysgu a dysgu i'r dysgwr;
- helpu athrawon cyflenwi i fyfrio ar eu harferion a nodi unrhyw anghenion dysgu proffesiynol;
- helpu i ddatblygu cysylltiadau gwaith cryf rhwng yr ysgol a'r athro cyflenwi neu'r asiantaeth cyflenwi masnachol.